# Dogfen Canllawiau Profi, Olrhain a Diogelu COVID-19 Chwara Cymru: Yr Asesiad o gysylltiadau COVID-19 risg uchel

## Olrhain Cysylltiadau

Dylai'r **Swyddog Meddygol Covid-19** Chwaraeon olrhain cyswllt ag unrhyw gysylltiadau risg uchel o ddiwrnod cymryd y swab i **48 awr ynghynt** (neu ddatblygu symptomau os yw hyn yn rhagflaenu'r prawf).

Rhaid i bob proses gael ei hategu gan ddiffiniad Iechyd Cyhoeddus Cymru o gyswllt agos:

- *Unrhyw gyswllt agos iawn ag aelod o'r cartref*
- *Unrhyw gyswllt wyneb yn wyneb byrhoedlog yn erbyn cyfarfod byrhoedlog o 3 neu fwy*
- *Cyswllt croen i groen â'r wyneb*
- *Rhywun wedi pesychu neu disian ar yr unigolyn*
- *<1m am 1 munud o bob math arall o gyswllt*
- *<2m gydag un person yn gronnol am 15 munud y dydd*

Adolygiad o hyfforddiant ac, os yw'n berthnasol, lluniau/fideo o'r gystadleuaeth, a wnaed ar gyfer yr amserlen o ddiwrnod cymryd y swab i 48 awr ynghynt (neu ddatblygu symptomau os yw hyn yn rhagflaenu'r prawf), *dan arweiniad* ***Swyddog Meddygol COVID-19***

Swyddog Meddygol Covid 19 (gyda chymorth y tîm perfformiad Chwaraeon) yn casglu:

- Cofnod gweithgarwch hyfforddi
- Fideo sesiwn hyfforddi
- Dadansoddi data GPS
- Manylion unrhyw staff mewn cyfarpar diogelu personol lefel 2 yn ystod y cyswllt
- Unrhyw weithgareddau eraill yn y cyfleuster hyfforddi e.e. cyfarfodydd, ystafelloedd newid, cawod, ffreutur (pan fo hynny'n berthnasol)

## Ystyriaethau Teithio

Ystyrir bod teithio yn weithgaredd risg uchel o ystyried y posibilrwydd o dorri canllawiau cadw pellter cymdeithasol. Mae'r argymhellion ar gyfer:

- Gwisgo masgiau wyneb bob amser wrth deithio
- Cofnodi seddau sy'n cael eu dyrannu (ffotograffau/seddau gydag enwau) gan y bydd hyn yn helpu gyda chadernid unrhyw broses olrhain cysylltiadau bosib yn y dyfodol.

## Adrodd ar broses Profi, Olrhain a Diogelu COVID-19

Dylid cofnodi a chyflwyno'r holl weithgarwch tracio ac olrhain i Grŵp Goruchwyliaeth Feddygol COVID-19 Chwaraeon Cymru. Ceir templed a argymhellir ar gyfer cofnodi yn Atodiad 1 isod.

Swyddog Meddygol COVID-19 yn Rheoli Cysylltiadau Agos

Bydd yn ofynnol i athletwyr a ystyrir yn gyswllt risg uchel yn dilyn y broses olrhain cysylltiadau hunanynysu am 10 diwrnod.

Os yw'r athletwr sy'n **gyswllt positif** yn parhau i fod yn asymptomatig ar ddiwrnod 5, gellir ystyried yr athletwr hwn ar gyfer prawf RT-PCR posib yn dilyn trafodaeth gyda Grŵp Goruchwyliaeth COVID-19 Chwaraeon Cymru. Sylwer nad yw hyn yn bendant a bydd yn seiliedig ar nifer o ffactorau gan gynnwys lefel CT y prawf positif a thrafodaeth gydag Iechyd Cyhoeddus Cymru. Dim ond ar ôl cynnal adolygiad llawn o bob achos unigol y gallai'r canlynol ddigwydd:

- Os yw'r prawf hwn yn negatif a bod yr adolygiad yn foddhaol, gellir ystyried yr athletwr ar gyfer ailintegreiddio â'i gamp a'i ryddhau o ynysu.
- Os yw'r prawf yn negatif, ond bod yr athletwr yn dangos symptomau, rhaid i'r athletwr aros ar wahân ac ynysu ac ystyried cynnal ail brawf 3 diwrnod yn ddiweddarach.
- Os yw'r prawf hwn yn bositif (a bod yr athletwr yn parhau i fod yn asymptomatig) rhaid i'r athletwr yma ailddechrau ynysu am 10 diwrnod o ddyddiad swab y prawf positif.
- Os yw'r prawf yn bositif a bod yr athletwr yn dangos symptomau, rhaid i'r athletwr aros ar wahân ac ynysu am 10 diwrnod o ddyddiad datblygu symptomau.

ATODIAD A: FFURFLEN ADRODD PROFI, OLRHAIN A DIOGELU COVID-19 CHWARAEON CYMRU

*Lluniwyd gan:*

Athletwr:

STATWS FFITRWYDD:

GOFYNION MEDDYGOL/FFISIO AR GYFER HYFFORDDIANT:

PROFFIL SYMPTOMAU A THYMHEREDD 14 DIWRNOD:

CYSWLLT CARTREF NEU ACHOS A GADARNHAWYD:

AMGYLCHIADAU'R CARTREF:

GWYBODAETH ARALL:

DOSBARTHIAD Y CYSWLLT:

- CYSWLLT WYNEB YN WYNEB (> 3 EILIAD): Adolygu ar unwaith ac Ynysu am 10 diwrnod.
- CYSWLLT WYNEB YN WYNEB (< 3 EILIAD): Dim mwy nag amser cyswllt cronnol o 1 munud.
- CYSWLLT AGOS (ANUNIONGYRCHOL) (< 3 EILIAD): Dim mwy nag amser cronnol o 15 munud.
- TORRI RHEOLAU CADW PELLTER CYMDEITHASOL (<1M > 3 EILIAD): Dim mwy nag amser cronnol o 15 munud

CRYNODEB HYFFORDDIANT / DIWRNOD Gêm: (Risg cyswllt)
DATA ADOLYGU LLUNIAU/FIDEO:

Cafodd y dadansoddiad hwn ei gynnal gan yr awdur gan ddefnyddio'r meini prawf a nodir uchod.

e.e.
*1. Nid oedd unrhyw Gyswllt Wyneb yn Wyneb a oedd yn para mwy na thair eiliad.*
*2. Roedd...... cyfrif o Gyswllt Wyneb yn Wyneb o lai na 3 eiliad o hyd yn cynnwys......... chwaraewr gwahanol, nid oes yr un ohonynt yn cronni mwy nag 1 munud.*
*3. Nid yw pob cyswllt agos (anuniongyrchol) yn cronni mwy na 15 munud ar gyfer un chwaraewr.*
*4. Nid yw torri rheolau cadw pellter cymdeithasol yn cronni mwy na 15 munud ar gyfer un chwaraewr.*
*5. Nid oedd unrhyw besychu, tisian na gweiddi agos y gellid ei adnabod.*

CRYNODEB:

Argymhelliad:
*e.e.*
*Yr argymhelliad yw nad oes unrhyw chwaraewyr yn cael eu rhoi mewn cwarantîn fel cysylltiadau agos â'r achos cyntaf.*